CYNGOR CYMUNED PENMYNYDD
COFNODION CYFARFOD
8 Medi
2021
2021, Trwy Zoom 7.00yh

YN BRESENNOL: Cyng. D. Idriswyn Roberts (Cadeirydd) N Jones, E Williams, R.M. Jones, A Mummery, (Cyngor Sir). A. Le Cras (Clerc)	
1.	**YMDDIHEURIADAU** Cyng. S. Hughes, L R. Williams (Cyngor Sir) Cydymdeimlwyd gyda'r Cadeirydd yn ei profedigaeth ar golled ei fam.
2.	**DATGAN DIDDORDEB** – Dim
3.	**DERBYN COFNODION** Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Fe'u derbyniwyd fel rhai cywir. Cyng E. Williams yn cynnig a Cyng A. Mummery yn eilio.
4.	**MATERION YN CODI O'R COFNODION**
4.1	**Difrod i wynebedd y bont dros yr A55**. Gweithwyr wedi bod yno heddiw i baratoi ar gyfer cychwyn ar y gwaith.
4.2	**ELUSENDAI / TAI ROGERS LEWIS** Cynhaliwyd y cyfarfod cyntaf o'r pwyllgor newydd. Trefnwyd cyfarfod gyda cynrychiolydd o'r Almshouses Association erbyn 01/10/21 er mwyn derbyn cyngor ar sut I symud ymlaen.
4.3	**MAES CHWARAE STAR** Dim cytundeb torri gwair yn ei le. Gofyn i gwmni N. Jones weithredu unwaith eto. Gofyn iddo am bris ar gyfer flwyddyn nesaf. (6 torriad dros y tymor)
4.4	**YMGYNGHORIAD CYMHWYSTERAU CLERCOD** Cadeirydd I wneud ymholiadau gyda Un Llais Cymru am wybodaeth pellach.
5.0	**GOHEBIAETH CYNGOR SIR YNYS MÔN**
6.0	**GOHEBIAETH YCHWANEGOL**
7.0	**MATERION ARIANNOL**
7.1	**TALIADAU**

	Cyflog Clerc Rospa - gofyn am yr adroddiad.
7.2	**Rhent y Neuadd** Clerc i holi'r Cyngor Sir am fil rhent y Neuadd.
7.3	**Adroddiad Ariannol -** ar gyfer y cyfarfod nesaf.
8.0	**MATERION ERAILL**
8.1	**Pobl ifanc yn ymgynnyll yn eu ceir ym maes parcio Bryn Ffynnon -** Clerc i gysylltu a'r heddlu i ofyn iddynt alw draw dros y penwythnosau I gadw golwg.
8.2	**Cyfarfodydd i'r Dyfodol.** Cytunwyd i gynnal cyfarfod mis Hydref yn y Neuadd a thrafod y ffordd ymlaen.
9.0	**EITEMAU AR GYFER YR AGENDA NESAF**
9.1	Safle aros dros dro i deithwyr, Ffordd Caergybi
	Llofnod Cadeirydd 06/10/2021